# Gosod systemau draeniau palmant ar y cyd

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn gosod systemau draeniau palmant ar y cyd a ddefnyddir yn y diwydiannau tirlunio caled.

Mae'n addas ar gyfer gweithredwyr sydd yn gweithio o dan oruchwyliaeth gyfyngedig ac mae'n canolbwyntio ar y sgiliau sy'n ofynnol i ddeall y strwythur a gosod systemau draeniau palmant ar y cyd tra'n gweithio yn unol â manylebau.

Bydd disgwyl i chi ddeall effaith y gwaith gosod hwn ar yr amgylchedd uniongyrchol, ac effaith yr amgylchedd ar y strwythur.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu’r risg sydd yn gysylltiedig â’r safle a’r gwaith arfaethedig
2. dewis, paratoi a defnyddio offer a chyfarpar ar gyfer gosod systemau draeniau palmant ar y cyd yn ddiogel ac yn gywir
3. gwisgo dillad addas ac offer amddiffynnol personol (PPE) ac offer amddiffynnol anadlol (RPE)
4. gosod allan ar gyfer llinell a lefel
5. gosod a pharatoi haen addas
6. gosod unedau i’r llinell a’r lefel cywir
7. torri unedau yn ôl y gofynion
8. cynnal lled cywir ar y cyd
9. selio cymalau i fodloni’r manylebau
10. cysylltu’r draeniau palmant i arllwysfeydd addas wrth osod y system
11. gwirio’r gwaith o osod system draeniau palmant ar y cyd sydd wedi ei gwblhau ac unioni unrhyw broblemau
12. unedau hansh
13. tra’n gosod systemau draeniau palmant ar y cyd, cadw niwed, gwastraff diangen, effaith annymunol ar yr amgylchedd a llygredd, mor isel â phosibl
14. cadw’r safle mewn cyflwr glân a thaclus tra’n cwblhau’r gwaith gosod
15.

glanhau, cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar yn brydlon ac yn ddiogel wrth gwblhau'r gwaith gosod

16.
diogelu systemau draeniau palmant ar y cyd yn gywir rhag y tywydd a defnydd nes eu bod mewn cyflwr addas

17.
gadael y safle yn ddiogel, yn daclus ac yn addas at y defnydd a fwriadwyd ar ei gyfer

18.
cynnal perthynas waith dda gyda phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo

19.
parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr a'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo

20.
gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y tywydd sy'n briodol ar gyfer gosod systemau draeniau palmant ar y cyd
2. sut i ddehongli manylebau ar gyfer gosod systemau draeniau palmant ar y cyd
3. sut i fesur er mwyn sicrhau bod y gwaith o fewn goddefiannau
4. sut caiff disgynfeydd, llinellau a lefelau eu pennu a'u nodi
5. sut i ddewis yr offer a'r cyfarpar cywir ar gyfer y gwaith yn cynnwys offer amddiffynnol personol (PPE) ac offer amddiffynnol anadlol (RPE)
6. sut i ddefnyddio'r offer a'r cyfarpar angenrheidiol yn ddiogel ac yn gywir
7. sut i wneud asesiad risg ar gyfer y gwaith gosod a phenderfynu ar ddulliau gwaith diogel
8. yr ystod o systemau draeniau palmant ar y cyd sydd ar gael a'u cymwysiadau addas
9. pwysigrwydd atalfeydd ymylon cadarn
10. pwysigrwydd defnyddio'r math cywir o ddeunydd haen
11. y ffordd y caiff yr haen ei osod a'i baratoi, a sut caiff ei lunio i ddilyn copaon, pantiau a thrawsnewidiadau
12. manteision ac anfanteision defnyddio haenau rhenciau a ffrydiau wedi eu gosod ymlaen llaw
13. sut i gyfrifo nifer yr unedau sydd eu hangen
14. sut caiff unedau eu dosbarthu i'r safle gosod, eu storio a'u gosod ar gyfer y gweithredwr gosod
15. sut caiff unedau eu symud i mewn i'r safle gan ddefnyddio cymhorthion codi mecanyddol a/neu wactod
16. sut caiff unedau eu hatgyfnerthu i'r llinell a'r lefel ofynnol
17. sut caiff unedau eu cymalu
18. sut caiff systemau draeniau palmant ar y cyd eu cysylltu ag arllwysfeydd
19. sut mae systemau draeniau palmant ar y cyd yn cael eu gwirio ar ôl eu gosod am aliniad cywir ar hyd llinellau syth a chromliniau
20. sut mae torri yn digwydd gan ddilyn egwyddorion isafswm maint uned
21. sut mae offer torri yn cynnwys gilotîn, llif ac offer tocio'n cael eu defnyddio i osod systemau draeniau palmant ar y cyd
22. pwysigrwydd atal llwch ac offer amddiffynnol anadlol (RPE) wrth ddefnyddio cylchlif

23. pwysigrwydd defnyddio'r dull cymalu cywir a'i rôl ym mherfformiad y system draeniau palmant wedi ei chwblhau
24. codi ac adnewyddu unedau diffygiol
25. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo a sut dylid gwneud hyn
26. pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol i leihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
27. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol perthnasol

## Cwmpas/Ystod

A dewis a defnyddio'r mathau canlynol o offer a chyfarpar wrth osod systemau draeniau palmant ar y cyd:

1. cymorth codi mecanyddol priodol
2. cylchlif
3. gordd a/neu forthwyl pren

B. cynnal y tasgau adeiladu canlynol:

1. gosod allan ar gyfer llinell a lefel
2. gosod ffrwd palmant addas
3. gosod unedau ar haen priddgalch ar ffrwd sydd eisoes yn bodoli
4. gosod unedau mewn llinell syth (rhenc)
5. gosod unedau mewn cromlin wirioneddol
6. gosod unedau mewn cromlin rydd
7. gosod croesfan isel
8. gosod trawsnewidiadau rhwng palmentydd ac unedau draeniau palmant
9. codi ac atgyweirio

C. gweithio gyda'r mathau canlynol o ddraeniau palmant:

1. systemau un darn
2. systemau darnau lluosog

## Geirfa

Tasgau gosod:

- gosod allan ar gyfer llinell a lefel
- gosod ffrwd palmant addas
- gosod unedau ar haen priddgalch ar ffrwd sydd eisoes yn bodoli
- gosod unedau mewn llinell syth (rhenc)
- gosod unedau mewn cromlin wirioneddol
- gosod unedau mewn cromlin rydd
- gosod croesfan isel
- gosod trawsnewidiadau rhwng palmentydd ac unedau draeniau palmant
- gosod atalfa ymylon mewn cilfach ongl sgwâr gan ddefnyddio onglau a chwadrantau mewnol/allanol
- codi ac atgyweirio

Cyfarwyddiadau: llafar neu ysgrifenedig.

Draeniau palmant:

- systemau un darn
- systemau darnau lluosog

PPE: Offer Amddiffynnol Personol.

RPE: Offer Amddiffynnol Anadlol.

Manylebau: darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol

(SOP), canllawiau cynhyrchwyr, polisïau sefydliadol.

Offer a chyfarpar:

- cymorth codi mecanyddol priodol

- cylchlif
- gordd a/neu forthwyl pren
- PPE ac RPE priodol

Gosod systemau draeniau palmant ar y cyd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANH47 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Tirluniwr |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | draeniau palmant; atalfeydd ymylon |